

## Cyflawni'r gorau ar gyfer pobl Merthyr Tudful – gweler tudalen 7



Darparwyd llun y clawr blaen gan  
Angharad Paull [www.thisbristolbrood.com](http://www.thisbristolbrood.com)



[merthyrtydfilCBC](https://www.facebook.com/merthyrtydfilCBC)



[@MerthyrCBC](https://twitter.com/MerthyrCBC)



[www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk)



## Nodyn gan yr Arweinydd

Croeso i'r rhifyn diweddaraf o'ch papur newydd cymunedol, Cyswilt.



Yn ystod y cyfnod heriol hwn o ran cyllid ac fel Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, hoffwn atgoffa pawb o'r pethau mawr sy'n parhau i ddigwydd yn ein Bwrdeistref Sirol.

Fe welwch o'r rhifyn hwn bod ein cymunedau'n parhau i ffynnu. Wrth weithio'n agos at y gymuned a'n partneriaid perthnasol byddwn yn sicrhau ein bod ni'n cyflawni'r nod o Ferthyr Tudful fel hyb canolog Cymoedd De Cymru.

Bydd yr heriau yno o hyd, ond rhaid i ni barhau i ymdrechu am y gorau. Mae Merthyr Tudful yn mynd o nerth i nerth a rhaid i ni annog twf economaidd a chyfleoedd buddsoddi mewnol i genedlaethau'r dyfodol. Ymhellach, yn y cyhoeddiad hwn byddaf yn sôn am yr heriau ariannol yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd fel Cyngor a'r cynlluniau sydd gennym mewn lle i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Yn y rhifyn hwn cewch wybodaeth am y Darpar Faer a'r Maer Ieuenctid newydd ar gyfer 2019/20. Hoffwn longyfarch y Cyngorydd Howard Barrett a Krystian Maciejczyk hefyd, ar gael eu hethol; byddant, yn ddau, yn llysgenhaden ardderchog i'n Bwrdeistref Sirol.

Mae'r Cyngor hefyd yn falch iawn o gyhoeddi y bydd gwaith yn dechrau ar orsaf fysiau newydd yng nghanol y dref. Disgwyli'r i'r gwaith ddod i ben yn ystod hydref 2020. Am wybodaeth bellach o'r prosiect newydd cyffrous hwn trowch at dudalen 5 o'r rhifyn hwn.

Unwaith eto, rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am gynnig y nawdd o £10m ar gyfer y datblygiad a fydd, ar ôl iddo orffen, yn cydweddu â'i buddsoddiad sylweddol yn Rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd.

Mae'r tagfeydd traffig o amgylch ein hysgolion yn broblem ddifrifol bellach. Cafwyd cyfarfod rhyngof i a'r Aelod Cabinet perthnasol, y Cyngorydd David Hughes â swyddogion Peirianeg, Traffig, Addysg a Diogelu'r Gymuned i ddod o hyd i ateb ar frys.

Rhaid i ni fynd i'r afael â'r broblem hon ar unwaith a gofynnaf i rieni/gofalwyr fod yn ymwybodol o'r peryglon i'n pobl ifanc pan gaiff mynedfeydd i ysgolion eu rhwystro yn ystod amseroedd gollwng / casglu plant.

Mae cynllun teithio ysgolion yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Bydd cynllun peilot yn cael ei weithredu yn Ysgol Gynradd Gymunedol Twynrodyd gyda'r golwg o weithio â phob ysgol yn y dyfodol agos wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau unigol.

Byddaf yn ymdrechu i roi gwybod i chi am y diweddaraf wrth i'r datblygiadau hyn fynd rhagddynt.

*Kevin O'Neill*

Kevin O'Neill  
Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr

## Y Cyngorydd Howard Barrett, Maer Merthyr Tudful 2019/20

Cafodd y Cyngorydd Howard Barrett er urddo fel Maer Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer 2019/20 ddydd Mercher 15 Mai 2019.

Mae Howard wedi cynrychioli Ward Etholiadol y Faenor ers 2008 ac mae'n byw yng Nghefn Coed. Mae ganddo un mab, Wayne, sy'n byw yn Awstralia gyda'i wraig a'i ddau blentyn; mae ganddo wyres hefyd o'r enw Darcy sy'n byw yn Nhroedyrhiw, a bydd hithau'n gwmni swyddogol iddo ar rai o'i ymweliadau fel Maer.

Ganwyd Howard yn Nhrefechan ac aeth i Ysgol Y Graig ac Ysgol y Faenor a Phenderyn cyn mynychu Colegau Merthyr Tudful, Pontypridd a Phen-y-bont ar Ogwr.

Gweithiodd Howard yn Chwael y Faenor am 25 mlynedd ac mae'n aelod o Fforwm y Faenor a Grŵp Cymunedol Ponsticill.

Fel Prif Ddinesydd Merthyr Tudful, mae dyletswyddau'r Cyngorydd Barrett yn cynnwys cadeirio cyfarfodydd llawn y Cyngor a chynrychioli'r Cyngor mewn achlysuron ffurfiol a seremonïol yn y Fwrdeistref Sirol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Bydd yn croesawu ymwelwyr i'r Fwrdeistref Sirol a mynychu a chefnogi digwyddiadau gaiff eu trefnu gan bobl a sefydliadau lleol.

Eleni, mae Howard wedi dewis elusen sydd wedi ei helpu e'n bersonol yn ogystal â rhai aelodau o'i deulu; Cefnogaeth Canser Macmillan, Merthyr Tydfil. Bydd yr holl arian o godir yn mynd tuag at y gwaith gwyb sydd eisoes yn cael ei wneud gan Macmillan yn yr Uned Ganser Arbennig yn Ysbyty'r Tywysog Siarl.

Y Dirprwy Faer ar gyfer 2019/20



yw'r Cyngorydd Malcolm Colbran, Cyngorydd Ward Bedlinog.

## Maer Ieuenctid newydd 2019/20



Ar dydd Gwener 10 Mai 2019, Urddwyd y Maer Ieuenctid newydd. Urddwyd Krystian Maciejczyk, myfyrwr 17 oed sy'n mynychu Coleg Merthyr Tudful, fel y 10fed Maer Ieuenctid Merthyr Tudful ac urddwyd Andrew Millar hefyd, sef disgybl yn Ysgol Uwchradd Cyfarthfa, fel y Dirprwy Faer.

Yn ei araith dderbyn, amlinellodd y Maer Ieuenctid ei dair addewid am ei gyfnod yn y swydd. Ei addewid cyntaf yw newid y cysyniad o fewnfudo a gwneud i

bobl sylweddol ei fod yn cyfoethogi cymuned a bod cael pobl o bob math ynghyd yn eu galluogi nhw i rannu profiadau a'u hamrywiaeth. Roedd ei ail addewid yn ymwneud ag amlygu'r problemau am ddigartrefedd a gweithio arnynt fel bod pobl yn dyfod yn fwy goddefgar o'r rheini mewn cymdeithas sydd fwyaf mewn angen.

Mae trydydd addewid Krystian ynghylch herio a chodi ymwybyddiaeth am Fasnachu Pobl ac amlygu'r ffaith fod hyn yn digwydd yn y fan a'r lle ar hyn o bryd. Bydd Krystian yn codi arian ar gyfer Gorsaf Rhoddion Merthyr Tudful i helpu cefnogi'r rheini sydd mewn risg o fod yn ddigartref.



## Cynhadledd Ieuenctid

Yn ystod Cynhadledd Wanwyn Ieuenctid 2019 yng Ngholeg Merthyr Tudful, gwnaeth disgyblion ac athrawon ymuno i ganu nifer o ganeuon ar y cyd gan gyfranogi yn niwrnod canu rhyngwladol: Sing-Up Day.

Nod y rhaglen, sy'n dathlu 10 mlynedd, yw dod â chanu yn ôl i ysgolion ac roedd yn cydamseru â chynhadledd blyneddol y myfyrwyr sy'n annog myfyrwyr i gyfnewid sylwadau am faterion cyfredol.

Gan ganolbwyntio ar Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, roedd y digwyddiad yn cynnwys cyflwyniadau oddi wrth siaradwyr gwadd am faterion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, yn cynnwys

unigrwydd ac arwahanrwydd.

Ymhlith y siaradwyr oedd Cadeirydd Chwaraeon i'r Anabl Merthyr, Tom Evans, Prif Swyddog Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful Davy ac Arweinydd y Cyngor y Cyngorydd Kevin O'Neill.

Dywedodd Rheolwr Cynhwysiant CBSMT Sarah Bowen: "Roedd y gynhadledd yn llwyddiant ysgubol. Unwaith yn rhagor mae cenhadlaeth y dyfodol o Ferthyr Tudful wedi dweud eu dweud am faterion sydd o bwys iddyn nhw. Y gobaith yw y bydd eu lleisiau'n dylanwadu ar gynllunio'r dyfodol."

Yn gynharach yn y bore, roedd disgyblion Ysgol Uwchradd Pen Y Dre wedi cymryd rhan yn Niwrnod Sing-Up hefyd.

## Gofalwyr Ifanc wedi'i groesawu i Barlwr y Maer fel rhan o Wythnos Genedlaethol Gofalwyr 2019

Roedd y Maer â'r Maer Ieuenctid wrth eu boddau i groesawu aelodau Brosiect Côr Gofalwyr Ifanc Barnardos i mewn i Barlwr y Maer fel rhan o ddathliadau Wythnos Gofalwyr.

Dywedodd y Cyngorydd Chris Davies, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Hyrwyddwr Plant a Phobl Ifanc y Cyngor: "Roedd yn ffantastig. Roedden nhw'n hollol wych ac yn glod iddynt eu hunain a'u teuluoedd."

Ychwanegodd y Cyngorydd David Hughes, Hyrwyddwr Gofalwyr y Cyngor: "Hoffwn, ar ran y Cyngor, gymeradwyo holl waith gwyb y gofalwyr, gwir arwyr di-gydnabyddiaeth oddi fewn i'n cymunedau.

Aeth y Cyngorydd Chris Davies ac uwch reolwyr Gwasanaethau Plant ar daith i weld y grŵp yn mwynhau amser iddynt eu hunain yn yr Engine House, Dowlais.

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i barhau i gefnogi a chodi proffil gwaith y gofalwyr a'i bartneriaid a gomisiynwyd o'r Trydydd Sector, sy'n cynorthwyo gofalwyr a'u teuluoedd ledled y fwrdeistref sirol drwy ei Strategaeth Gofalwyr.

## Mae'r oriel bortreadau yn dathlu degawd o feiri ieuenctid

Dathlwyd cofnod balch o gefnogi degawd o feiri ifanc wrth ddadorchuddio oriel bortreadau yng Nghanolfan Ddinesig.

Nododd y Cyngor 10fed pen blwydd urddo ei faer ieuenctid cyntaf drwy wahodd y maer cyfredol a naw deiliad blaenorol y swydd, i ddod i'r digwyddiad.

Dywedodd Hyrwyddwr Plant a Phobl Ifanc, y Cyngorydd Chris Davies: "Mae'r 10 ffotograff o'r meiri ieuenctid yn hawlio'u lle'n falch ar hyd goridor yr ystafelloedd cyfarfod yn y Ganolfan Ddinesig. Rwyf am gadarnhau ymrwymiad y Cyngor i'n gwaith parhaus gyda'n pobl ifanc ac i ddatblygu

a chynyddu'r agenda cyfranogi ledled y fwrdeistref sirol."

Ysgogwyd creu'r rôl gan Fforwm Ieuenctid Ledled y Fwrdeistref, y mae ei Cabinet Ieuenctid yn gwneud yn siŵr fod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed ac yn gwneud gwahaniaeth i'r gwasanaethau i bobl ifanc.

Ymhlith y gwesteion eraill yn y digwyddiad o ddathlu oedd yr Uwch Siryf Morgannwg Ganol Mrs Tina Donnelly, Maer Merthyr Tudful y Cyngorydd Howard Barrett ac Arweinydd y Cyngor y Cyngorydd Kevin O'Neill.





## Cynllun Paent am Ddim yng Nghanolfan Gwastraff Cartref ac Ailgylchu Dowlais

Mae paent am ddim ar gael ar gyfer preswylwyr y Fwrdeistref Sirol o CGCacA Dowlais.

Mae'r paent ar gael yn Adran Aildefnyddio'r safle gerllaw'r

banciau tecstilau.

Mae paent yn cael ei storio yn ôl math a dim ond y paent a fydd ar gael ar y safle yn ystod cyfnod ymweliad y preswlydd fydd ar

gael i'w gasglu. Ni eillir archebu'r math, y lliw na'r nifer o flaen llaw. Dylai unrhyw unigolyn a hoffai fanteisio ar y gwasanaeth hwn sy'n rhad ac am ddim hysbysu aelod o'r

staff cyn cael mynediad i'r adran aildefnyddio paent.

P'un ai bod gennych waith DIY bach neu fawr, hoffem eich croesawu i gymryd mantais o'r

gwasanaeth hwn a lleihau'r niferoedd o baent, sydd o ansawdd da sy'n cael ei ddyddodi! Nodwch na fydd y gwasanaeth ar gael yn CGCacA Aberfan.

**RHOWCH WYBOD**  
YMFALCHÏO YM  
MERTHYR TUDFUL.  
(01685) 725000  
[www.merthyr.gov.uk/tipio-anghyfreithlon](http://www.merthyr.gov.uk/tipio-anghyfreithlon)  
#CaruMerthyrTudful

**REPORT IT**  
TAKE PRIDE  
IN MERTHYR TYDFIL.  
(01685) 725000  
[www.merthyr.gov.uk/fly-tipping](http://www.merthyr.gov.uk/fly-tipping)  
#LoveMerthyrTydfil

**WYDDOCH CHI!**  
**BLE MAE EICH GWASTRAFF YM MYND?**

Os byddwch chi'n talu i rywun fynd â sbwriel o'ch cartref neu eitemau nad oes mo'u hangen arnoch mwyach, rhaid i chi wneud yn siŵr eu bod nhw wedi cofrestru fel cludwyr gwastraff. Os na wnewch chi, gellir rhoi dirwy o £300 i chi, neu hyd at £5,000 os cewch eich erlyn.

I gwrdd â Dyletswydd Gofal Gwastraff y Cartrefwyr rhaid i chi:

1. Gwirio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru fod y person neu'r cwmni rydych chi'n eu defnyddio wedi'u cofrestru. Gallwch wneud hyn ar lein ar [cyfoethnaturiol.cymru/gwirioGwastraff](http://cyfoethnaturiol.cymru/gwirioGwastraff) neu drwy ffonio **03000 653000** (ar agor 8am – 6pm yn ystod yr wythnos waith, codir tâl cyfradd cenedlaethol).
2. Holi i ble mae eich gwastraff yn mynd

Rydym ni hefyd yn argymhell eich bod chi'n:

- Cadw cofnod o bob ymholiad fyddwch chi'n ei wneud, gan gynnwys enw a rhif cofrestru'r gweithredwr
- Cadw anfoneb sy'n cynnwys disgrifiad o'r gwastraff a'r cwmni a ddefnyddiwyd
- Cofnodi manylion y busnes neu'r cerbyd (rhif cofrestru, math, model, lliw).

Ewch i [dyletswyddgofal.cymru](http://dyletswyddgofal.cymru) i gael rhagor o wybodaeth am waredu eich gwastraff yn gyfrifol.

**Fly-Tipping Action Wales**  
@Ftaw  
[flytipping\\_action\\_wales](https://www.facebook.com/flytipping_action_wales)

**EICH DYLETWSYDD CHI YW GOFALU**

## CYNLLUN AILGYLCHU CEWYNNAU

Bydd astudiaeth hyfywedd yn penderfynu a ellir cyflwyno Cynllun Ailgylchu Cewynnau ym Merthyr Tudful.

Rydym yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd a byddwn yn diweddarau ymhellach mewn rhifyn o Cyswllt yn y dyfodol!



## Oeddech Chi'n Gwybod?

Llynedd, cyhoeddodd CBSMT 56 o hysbysadau cosb benodedig am dipio anghyfreithlon a chafodd 10 erlyniad llwyddiannus am dipio anghyfreithlon a throseddau gwastraff masnach!

## OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Os bydd aelwydydd yn gwrthod ailgylchu, gall y Cyngor gyflwyno Hysbysadau Cosb Benodedig.

## Os nad ydych yn ailgylchu popeth y gallwch yna mae angen i chi ddechrau nawr!

Mae CBSMT yn annog preswylwyr i ailgylchu cymaint o wastraff ag y gallant trwy'r gwasanaeth ailgylchu wythnosol a ddarperir. **Mae hyn yn dilyn canfyddiadau astudiaeth ddiweddar a dynnodd sylw at y ffaith y gallai oddeutu 45% o'r gwastraff mewn bin gwastraff cyffredin fod wedi cael ei ailgylchu.**

Eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed ailgylchu i Gyngorau Cymru ailgylchu 64% o'u gwastraff

ac mae ffigurau cynnar yn dangos os na allwn stopio rhoi deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn y bin du yn awr, ni fydd fodd i ni gwrdd â'r targed.

Gosodir targedau hefyd ar Gyngorau i leihau maint y gwastraff y maent yn eu hanfon i'w waredu pob blwyddyn ac os na fydd un neu'r ddau darged hwn yn cael eu cyflawni bydd cosb ariannol yn cael ei chyflwyno.

**Mae'r gost i'r Cyngor am beidio**

**ailgylchu yn un sylweddol ond mae modd ei osgoi!**

Oeddech chi'n gwybod y gall preswylwyr ofyn i aelod o dîm ailgylchu'r Cyngor i ymweld â hwy yn eu cartrefi er mwyn dangos iddynt sut allant ddidoli ac ailgylchu eu gwastraff? Mae'r gwasanaeth hwn yn hynod bwysig, yn enwedig er mwyn cynorthwyo'r unigolion hynny sy'n agored i niwed yn ein cymunedau.

Ewch i wefan y Cyngor er mwyn

canfod rhagor:

- Beth allwch ac na allwch ei ailgylchu
- Pa fagiâu/bocsys ailgylchu sydd eu hangen arnoch os nad oes gennych rai'n barod. Maent am ddim i'w harchebu ar lein neu dros y ffôn
- Eich diwrnod casglu
- Pa gymorth gall y Cyngor ei roi i chi



## Ysgol Gyfun Pen Y Dre



Ysgol Uwchradd Pen y Dre yw'r ysgol gyntaf erioed yng Nghymru i ennill Gwobrau Addysgu Proffesiynol Llywodraeth Cymru dair blynedd yn olynol! Yn 2017, dyfarnwyd yr anrhydedd i Ysgol Uwchradd Pen y Dre am Ymgysylltu â Rhieni a'r Gymuned. Yn 2018, dyblodd yr ysgol ei llwyddiant drwy ennill categori Gweithiwr Cymorth y Flwyddyn. Dyfarnwyd yr anrhydedd hon i Artist Preswyl yr ysgol, Mr Adam Griffiths. Yn rhyfeddol, mae'r ysgol bellach wedi cipio'r drydedd wobwr drwy ennill gwobr Defnydd Ysbrydoledig o'r Gymraeg 2019.

Mewn datganiad am yr enillydd nodwyd: "Mae Pennaeth y Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Pen y Dre, Mr Mark Morgan, yn athro eithriadol, yn ddyn gwybodaeth sy'n cael ei ddisgrifio fel un mewn miliwn. Mae e'n personoli'r safonau uchaf ac mae ei arweiniad

wedi arwain at gynnydd yn y Gymraeg fel pwnc poblogaidd ac o ran llwyddiant y disgyblion mewn arholiadau. Mae e wedi gwneud ei farc ar yr ysgol mewn cymaint o ffyrdd ac mae e wedi newid y safbwynt at y Gymraeg yn barhaol. Mae Mark wedi bod fel chwa o awyr iach i'r ysgol a'r gymuned, gan annog disgyblion ac oedolion o bob gallu i siarad Cymraeg ble bynnag a phryd bynnag y gallant. Mae disgyblion yn eilun addoli Marc ac yn ei ddisgrifio fel athro sy'n ysbrydoli ac sy'n ofalgar.



## YSGOL YNYSOWEN

**"Mae arweiniad cryf a brwdfrydig yn cyfrannu at lwyddiant yr ysgol eithriadol hon" – Arolwg Estyn Chwefror 2019.**

Yn gynharach eleni dyfarnodd Estyn, Arolygaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, fod Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysowen yn rhagorol ym mhob un o 5 maes yr arolwg:

- Safonau
- Lles ac agweddau at ddysgu
- Addysgu a phrofiadau dysgu
- Gofal, cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth a rheolaeth

**Mae hyn yn hynod o brin a dim ond llond llaw fach iawn o ysgolion ledled y wlad sydd wedi ei gyflawni gan wneud Ysgol Gynradd Ynysowen yn un o'r ysgolion gorau yng Nghymru.**

Llongyfarchiadau i'r athrawon, Llywodraethwyr, ac wrth gwrs i'r disgyblion ar yr orchest eithriadol hon!

Hoffem rannu rhai sylwadau â chi o'r adroddiad:

*"Gyda chefnogaeth llywodraethwyr dawnus iawn a chefnogol, mae*

*arweinwyr yn creu ethos i sicrhau fod disgyblion yn gwneud cynnydd ac mae lles yn tanategu'r holl weithgareddau."*

*"Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau arloesol sy'n sicrhau fod bron pob disgybl yn mwynhau dysgu ac yn dyfod yn ddysgwyr annibynnol."*

*"Mae agwedd y disgyblion at ddysgu yn deilwng iawn. Maen nhw'n dangos gofal a pharch sylweddol at ei gilydd ac at yr oedolion."*



## Ysgol y Graig

Bydd Toriad Swyddogol Y Dywarchen Yn Safle Newydd Ysgol Y Graig Yn Cael Ei Gynnal Fis Nesaf – Cadwch Olwg Allan Ar Ein Gwefan A Thudalennau Cyfryngau Cymdeithasol Am Luniau A'r Gwybodaeth Ddiweddaraf!



## Terfyn cyflymder o 20mya i'w ymestyn i Ffordd Aber-fan

Yn dilyn dwy rownd o ymgynghoriad cyhoeddus, bydd y Cyngor yn ymestyn y terfyn cyflymder cyfredol o 20mya rhwng Ysgol Ynysowen ac Ysgol Rhyd Y Grug.

Cafodd cam un o'r ymgynghoriad ei gynnal yn hydref 2018, pryd y gofynnwyd i breswylwyr ddweud wrthym am y problemau y maent hwy'n eu profi ynghylch llif traffig, tagfeydd traffig a chyflymder. Rhoddwyd cyfle iddynt wneud argymhellion am sut yr oeddent hwy'n tybio y gallai'r problemau gael eu datrys.

Ym mis Medi'r un flwyddyn, bu Swyddogion o'r Cyngor a Chynghorwyr y Ward, Darren Roberts a Scott Thomas yn

bresennol ac yn gwrando mewn sesiwn ymgysylltiol yng Nghanolfan Gymunedol Aber-fan lle y cafodd aelodau o'r cyhoedd wahoddiad i fod yn bresennol a chael dweud eu dweud.

Yn seiliedig ar y wybodaeth hon, cyflwynodd Swyddogion dri opsiwn i'w hystyried a gafodd eu cyflwyno mewn ymgynghoriad cyhoeddus yng ngwanwyn 2019.

Cwblhawyd 152 arolwg. Er mai opsiwn B oedd yr un a ffafrwyd gyda 30.3% o'r pleidleisiau (Opsion B estyn parth terfyn cyflymder 20mya cyfredol ac edrych ar gyfyngiadau un ffordd a pharcio mewn amrywiol leoliadau), dywedodd 32.4% o'r ymatebwyr nad oeddent yn

cytuno ag unrhyw un o'r argymhellion. O ganlyniad, ni fydd CBS Merthyr Tudful yn gweithredu unrhyw un o'r argymhellion; yn hytrach, bydd terfyn cyflymder o 20mya yn cael ei ymestyn ymhellach ar hyd Ffordd Aber-fan.

Bydd gorchymyn traffig yn awr yn cael ei roi yn ei le a bydd y cyfyngiad yn cael ei weithredu yn ystod y misoedd nesaf. Bydd y manylion yn cael eu rhannu unwaith y byddant ar gael.

Diolch i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r arolwg neu a ddaeth i'r sesiwn yng Nghanolfan Gymunedol Aber-fan. Cafodd eich adborth a'ch sylwadau eu gwerthfawrogi'n fawr.

[merthyr.gov.uk/presenoldeb](http://merthyr.gov.uk/presenoldeb)





## YMWELIAD BUSNES JAPAN

Heddiw, ymwelodd cynrychiolaeth o ddynion busnes Japaneaid sydd ar orchwyl canfod ffeithiau yn Ne Cymru â'r Ganolfan Ddinesig i drafod eu cynlluniau gyda'r cynghorwyr a swyddogion datblygu economaidd.

Ymhlith diddordebau'r cynrychiolwyr a oedd yn ymweld oedd ymchwil biocemeg, ynghyd â thechnoleg batri a solar o'r radd flaenaf. Mae gan y grŵp ddiddordeb mewn buddsoddi yn Ne Cymru ac, yn benodol, yn ystyried safle ym Merthyr Tudful.

Gwnaethon nhw gwrdd ag Arweinydd y Cyngor y Cyngorydd Kevin O'Neill a'r

Aelod Cabinet dros Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngorydd Geraint Thomas, ynghyd ag uwch staff adfywio'r adran.

Cafodd yr ymweliad ei gydlyn gan ddau ŵr busnes lleol blaenllaw, sef Dr John Croad a Dr Colin Hancock.

Dyweddodd y Cyngorydd O'Neil: "Mae gan bob un o'n hymwelwyr ddiddordebau busnes byd-eang ar wahân, gan gynnwys yn Japan, ac maen nhw'n awyddus iawn i ddechrau arni yma ym Merthyr Tudful. Gwnaethom ni drafod y ffordd orau o fodloni eu gofynion ac rydym yn ffyddiog y byddant yn dychwelyd adref yn llawn brwdfrydedd oherwydd y gefnogaeth



maen nhw'n gwybod y byddant yn ei derbyn oddi wrth y Cyngor Bwrdeistref Sirol a'n partneriaid.

"Roedden nhw'n falch o dderbyn rhai anrhegion lleol ac yn arbennig o falch o wisgo eu crysau chwys 'Gwnaed ym Merthyr'!"

### Newidiodd bywyd Simone gyda Phontydd i Waith 2

Mae cynllun a reolir gan y Cyngor â'r nod o gael pobl i weithio wedi 'newid bywyd' mam ifanc o'r enw Simone Williams.

Gyda chefnogaeth Pontydd i Waith 2 daeth Simone i fod yn Weithiwr Gofal Iechyd cymwysedig â Bwrdd Iechyd Cwm Taf.

Ar ôl gweithio mewn manwerthu a gweinyddu, bu Simone yn ddi-waith am dair blynedd. Gwnaeth hi gwrdd â thiwtor Pontydd, Julie Jones ym mis Gorffennaf 2018, ac ar ôl dangos diddordeb yn fframwaith Gofal Iechyd Cwm Taf, cafodd ei harwain drwy'r broses.

"Gwnes i asesiad sgiliau BKSB yn gyntaf a gwnaeth Julie fy helpu gyda thechneg cyfnewid," dywedodd Simone. "Nesaf cafwyd cyfnewid i fynd ar y cwsr. Ron i'n eithaf nerfus, ond roedd yr hyfforddiant ron i wedi ei wneud gyda Julie wir wedi fy helpu i 'mharatoi i fynd drwyddo – helpodd fi i adeiladu fy hyder."

Yna, gwnaeth Simone gymryd rhan mewn cwrs cyn-gyflogaeth yn y Ganolfan Ddysgu Gymdogol yn y Gurnos, a oedd yn cynnwys gwella sgiliau a gwybodaeth cyfathrebu. "Gwnes i wir fwynhau dyna meg y grŵp mewn gwirionedd, gwnes i fwynhau bob dydd."

Ar ôl cwblhau ei hyfforddiant, cyflawnodd Simone dair sifft gysgodi wirfoddol yn Ysbyty Tywysog Sial a chwblhau ffeil o waith, cyn dechrau cael ei chyflogi'n swyddogol gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf.

"Roedd fy sifft gyntaf yn heriol dros ben. Roeddwn yn amau fy hun yn fawr, ond neidiais i'r dyfnderoedd drwy drefnu gwneud sifft arall ar unwaith.

"Mae pob dydd yn llawn o'r annisgwyl – dydych chi byth yn gwybod beth fydd yn digwydd ar bob sifft. Mae'n eithaf corfforol – dylwn i gael pedomedr i gyfri'r holl gamau a wnafl!

"Mae'n bwysig trin pob person â pharch a chadw ei urddas. Rwy'n hoffi ceisio fy ngorau i wneud i'r cleifion deimlo'n esmwyth. Mae pethau bach yn cyfri fel dal llaw rhywun neu gymryd

amser i'w olchi neu gribo ei wallt. Mae fy nghleifion yn bwysig i mi. Rwyf wrth fy modd yn gwrando ar wahanol brofiadau bywyd. Mae hyn wedi fy nysgu na allwch farnu rhywun o'i olwg – gredech chi fyth y bywydau anhygoel mae rhai o fy nghleifion wedi eu byw.

"Rwyf wrth fy modd â'r swydd achos mae'n rhoi rhagor o amser o ansawdd da i mi ei dreulio gyda fy mhlant ac mae'n hyblyg o gwmpas fy mywyd. Credaf ei fod wedi fy ngwneud i'n berson cryfach ac yn rhiant gwell hefyd – yn fwy amyneddgar a boneddigaidd.

"Mae'n daith gydol oes. Er hynny rwy wrth fy modd. Credaf ei fod wedi fy ngwneud yn berson mwy hyderus a chadarnhaol. Mae wedi newid fy mywyd gymaint er gwell ac ni allaf ddioch ddiagon i staff Pontydd am fy helpu i wneud y mwyaf o'r cyfle hwn."

• Mae Pontydd i Waith 2 yn cynnig cyrsiau am ddim fel Hyllendid Bwyd, TG, Manwerthu, Iechyd a Diogelwch wrth Adeiladu CSCS, a llawer mwy. Ffoniwch neu e-bostiwch i wirio'ch cymhwysedd: 01685 727099 nlc.enquiries@merthyr.gov.uk

## Arbenigwyr Ewropeaidd yn cwrdd ym Merthyr Tudful i gynllunio hwb i economi gymdeithasol



Yn ddiweddar roedd Merthyr Tudful yn lleoliad ar gyfer cyfarfod rhwng swyddogion adfywio o bob rhan o Ewrop sy'n ceisio helpu rhoi cychwyn ar dwf economaidd yn eu cymunedau lleol.

Cynhaliodd y Cyngor Bwrdeistref Sirol y digwyddiad deuddydd ar ran y Rhwydwaith Cefnogi ar gyfer Entrepreneuriaid Cymdeithasol (SuNSE), sef prosiect sy'n cynnwys 10 o bartneriaid traws-genedlaethol Gogledd-orllewin Ewrop sy'n gweithio i gefnogi mentrau cymdeithasol i helpu i adfywio'r mannau maen nhw'n byw ynddynt.

Mae rhaglen Interreg VB Gogledd-orllewin Ewrop a ariannwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, wedi dwyn ynghyd arbenigedd, asiantaethau cefnogi, awdurdodau lleol, prifysgolion ac arbenigwyr cefnogi menter i fynd i'r afael â 'problemâu cyffredin o ran methiant yn y farchnad'.

Canlyniad hyn yw rhwydwaith wedi ei gynllunio o ganolfannau entrepreneuriaidd cymdeithasol ar gyfer ysgogi gweithgaredd economaidd sy'n cael ei lywio gan y gymuned mewn rhanbarthau o dan anfantais.

Gwnaeth partneriaid o'r Alban, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon, Lloegr, Yr Iseldiroedd, Luxembourg, Ffrainc a'r Swistir fynychu'r cyfarfodydd a'r gweithdai ym Merthyr Tudful ac ymweld â'r hyb menter gymdeithasol leol sef Canolfan

Menter Merthyr Tudful.

Caiff rhaglen SuNSE ei harwain gan Fenter Ucheldir ac Ynysoedd yr Alban, a dywedodd ei Rheolwr Polisi a Phrosiectau, Kevin McDonald: "Roedd y cyfnewid ym Merthyr Tudful yn gyfle ardderchog i ddysgu am amgylchedd a dynamig gwahanol ar gyfer mentrau cymdeithasol a rhannu peth o'r gwaith ardderchog rydym ni oll wedi ymgymryd ag e yn yr ardal hon."

Dyweddodd Aelod Cabinet Merthyr Tudful dros Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngorydd Geraint Thomas mai thema graidd y rhaglen oedd cefnogi cwmnïau sy'n dechrau a chreu swyddi.

"Y nod yw y bydd y mentrau cymdeithasol yn helpu i leihau allfudiad pobl uchelgeisiol drwy gynnig cefnogaeth iddynt mewn meysydd fel cynllunio busnes, rheoli ariannol, ymwybyddiaeth o'r farchnad a chyfleoedd masnachu i'w galluogi nhw i sefydlu busnesau cymdeithasol wedi eu lleoli'n lleol," ychwanegodd.

"Ar un adeg Merthyr Tudful oedd Prifddinas Haearn y Byd, ond bellach dyma'r lleiaf o'r awdurdodau lleol yng Nghymru," dywedodd y Cyngorydd Thomas. "Tra mai diwydiant trwm oedd gorffennol y dref, mae yw ei phresennol mewn twristiaeth, manwerthu, cynhyrchu ysgafn a'r sectorau gwasanaethu a chyhoeddus. Nod SuNSE yw annog a meithrin mentrau cymdeithasol i fod yn rhan sylweddol o'i dyfodol."

## Gwaith wedi dechrau ar orsaf fysiau newydd

Mae gwaith gwerth miliynau wedi dechrau ar orsaf fysiau newydd yng nghanol tref Merthyr Tudful. Disgwylir i'r adeiladu ar safle'r cyn orsaf heddlu ar Stryd yr Alarch dod i ben yn ystod hydref 2020. Mae'r orsaf fysiau bresennol oddi ar Stryd y Castell a bydd honno'n parhau i weithredu tan hynny.

"Ar ôl blynyddoedd o gynllunio, rydym wrth ein boddau fod yr adeiladwr ar y

safle" dywedodd y Cyngorydd Kevin O'Neill.

Yr adeiladwr a benodwyd yw'r cwmni adeiladu ac adfywio Morgan Sindall, sydd ag enw da am gyflawni prosiectau cymhleth ar amser ac oddi fewn i gyllideb.

Bu'r cwmni'n ymwneud ag amryw helaeth o gynlluniau adeiladu yng Nghymru dros y blynyddoedd diweddar,

gan gynnwys Ysgol Gymunedol Tonyrefail, £44m; Gardd-bentref Loftus yng Nghasnewydd, £30m; ac adeiladu Ysgol Gynradd Six Bells yn Abertyleri, £7m.

Cafodd y prosiect ei gyd-gynllunio ag Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-ranbarth Caerdydd a bydd y Cyngor yn cadw gwasanaethau proffesiynol Capita i gefnogi rheoli'r contract adeiladu.

Fel rhan o'r contract, bydd Morgan Sindall yn cynnal digwyddiad 'Cwrdd â'r Prynwr', gan gynnig cyfleoedd cadwyn gyflenwi i fusnesau lleol.

Caiff yr orsaf fysiau newydd ei lleoli'n nes at orsaf reilffordd y dref gan greu cyfleuster cyfnewidfa drafnidiaeth fodern o ansawdd uchel. Bydd hefyd yn galluogi cyfleoedd datblygu cyffrous newydd i'w hystyried ar gyfer safle'r orsaf fws gyfredol.

"Unwaith eto, rydym ni'n ddiochgar i

Lywodraeth Cymru am ddarparu'r £10m o arian ar gyfer y datblygiad a fydd yn cydweddu â'i fuddsoddiad sylweddol yn Llinellau Craidd y Cymoedd," dywedodd y Cyngorydd O'Neill.

"Rydym yn hyderus y bydd ein preswylwyr wrth eu boddau â'r cyfleuster hwn sy'n fawr ei angen ac ar flaen y gad ac a fydd yn sbarduno cam nesaf prif gynllun aildatblygu ar gyfer dyfodol canol y dref."

## Galw am ymgynghorwyr profiadol ar gyfer 'Uwchgynllun' treftadaeth uchelgeisiol



Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn edrych am dim o ymgynghorwyr profiadol i baratoi Uwchgynllun strategol ar gyfer atyniad i ymhelwyr a fydd o ansawdd rhyngwladol ac yn seiliedig ar rôl allweddol y dref yn ystod y chwyldro diwydiannol.

Bydd y datblygiad a fydd yn costio miliynau o bunnoedd wedi ei ganoli yng Nghastell Cyfarthfa a'i barc 77 hectar a oedd unwaith yn gartref i

deulu'r Crawshay, y meistri haearn a gynorthwyodd i droi Merthyr Tudful yn ganolfan cynhyrchu haearn fwyaf y byd yn y 19 ganrif.

Mae'r tendr a gyhoeddwyd yr wythnos hon yn rhagweld ymarfer uwchgynllunio 12 mis o hyd ar gyfer datblygiad sydd eisoes wedi cael ei gynllunio gan Lywodraeth Cymru fel porth allweddol ar gyfer Parc Rhanbarthol arfaethedig ar gyfer Cymoedd De Cymru.

Mae'r cysyniad yn seiliedig ar y cynigion a gynhwyswyd yn adroddiad y Criwsibl gan Gomisiwn Dylunio Cymru yn dilyn charrette cynllunio yn 2017. Daeth y charrette â mwy na 60 o bobl ynghyd – arbenigwyr cynllunio, arbenigwyr amgueddfedydd a threftadaeth a sefydliadau cymunedol – i rannu a thrafod syniadau ar gyfer yr ardal. Derbyniwyd yr adroddiad yn unfrydol gan y cyngor yn 2018 ac mae'n cynnig buddsoddiad o dros £50 miliwn er mwyn creu canolfan a fydd o bwysigrwydd cenedlaethol.

Daw'r adroddiad i'r casgliad: "Mae stôr gyfoethog o asedau'r dref yn cynnig cyfle unigryw i gyflawni'r cydlynad a'r effaith y mae Merthyr yn ei haeddu. Gall gweledigaeth fentrus adael ôl yr asedau hynny ar ymwybyddiaeth y cyhoedd mewn modd sy'n addas i'r dref fel lleoliad o bwysigrwydd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol."

Yn cydreddeg â phrosiect yr Uwchgynllun, mae llinell amser a phrosiect arall a fydd

yn ymdrin â'r broses o sefydlu Cyfrwng at Ddibenion Arbennig (CaDdA,) is-gwmni. Gobeithir y bydd yn derbyn statws elusennol ac y bydd yn weithredol cyn y bydd yr Uwchgynllun yn cael ei ddarparu.

Mae'r cyngor yn edrych i apwyntio tîm a fydd yn arwain y cynllunio er mwyn cynhyrchu uwchgynllun gweledigaethol, strategol ar gyfer datblygiad y dirwedd ddiwydiannol ac asedau treftadaeth ystâd Cyfarthfa yn ogystal ag asedau treftadaeth eraill y dref.

Bydd yr uwchgynllun creadigol, aml haenog yn dynodi ac yn diffinio'r briff ar gyfer yr atyniad canolog ar gyfer ymwelwyr a nifer o brosiectau cysylltiedig a fydd yn cael eu datblygu dros y blynyddoedd nesaf. Bydd y canlyniad yn chwarae rôl bwysig yn gosod y safon ar gyfer rhagoriaeth cynllunio yn natblygiad y dyfodol. Bydd yn dal y dychymyg er mwyn denu buddsoddiad a niferoedd ymwelwyr ac yn cynnal cefnogaeth leol.

Dyweddodd Gareth Chapman, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful: "Mae cyhoeddiad y tendr hwn yn garreg filltir hollbwysig ar y ffordd i wireddu ein gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer Cyfarthfa a'r dref gyfan. Rydym yn benderfynol y bydd hwn yn brosiect o'r

ansawdd uchaf. Rwy'n gobeithio y bydd yn ymgysylltu diddordeb talentau gorau'r wlad a thu hwnt er mwyn ein cynorthwyo i gyrraedd ein nod."

Dyweddodd Carole-Anne Davies, Comisiwn Dylunio Cymru: "Mae gan Ferthyr Tudful pob rheswm i ddisgwyl ansawdd a chreadigrwydd sydd o safon rhyngwladol. Mae gan Gyfarthfa a'r cylch hanes o ddyfeisgarwch byd-eang. Mae yma gyfle i adfywio'r hanes ag uchelgais newydd er mwyn ennyn dychymyg y cyhoedd a denu ymwelwyr newydd i Ferthyr Tudful a'r rhanbarth ehangach."

Dyweddodd Geraint Talfan Davies, Ymgynghorydd i'r Comisiwn Dylunio: "Mae'n rhaid i ni sicrhau bod cynllun o'r raddfa a'r sgôp hwn yn cael ei sefydlu ar y sylfeini cadarnaf. Bydd ymarfer yr Uwchgynllun hwn yn ein galluogi i asesu holl ddarnau'r jig-so fel y gallant, ar y cyd, wneud teilyngod â phwysigrwydd stori Merthyr Tudful a chyffroi cenedlaethau'r dyfodol."

Nodyn: Bydd rhaid i ymgeiswyr ar gyfer y gwaith hwn gyflwyno eu ceisiadau erbyn 17 Mai 2019 a disgwylir penderfyniad ar ddechrau Gorffennaf. Bydd y gwaith yna'n cymryd 12 mis pellach.



## CEWCH FOD YN HELIWR FICTORAIDD Y PASG HWN AR LWYBR ANIFEILIAID CYFARTHFA!



Dros benwythnos y Pasg bydd dau weithgaredd cyffrous newydd ar gyfer y gwanwyn yn dechrau ym Mharc Cyfarthfa ac fe fyddant yr un mor addysgiadol ag y byddant o hwyl - yn ogystal â bod am ddim! Needs updating.

Mae Llwybr Anifeiliaid Parc Cyfarthfa yn olrhain olion traed helwyr Oes Fictoria yn ystod adeg pan oedd teulu'r Crawshay yn byw yng Nghastell Cyfarthfa a phan oedd hela yn hobi poblogaidd. Y tro hwn, fodd bynnag, ni chaiff unrhyw anifeiliaid eu niweidio!

Bydd pobl sy'n cyfranogi yn derbyn copi o'r gêm gardiau wreiddiol, sy'n rhestru'r

anifeiliaid a oedd yn byw yn y parc, gan gynnwys y ffesant, petrisen, cyfflog a'r ysgyfarnog.

Bydd yr 'helwyr' yn mynd i mewn i'r coetir, dilyn y llwybr o gwmpas y pedwar llyn a gweld faint o anifeiliaid y byddant yn sylwi arnynt – mae naw ohonynt i gyd.

"Mae Parc Cyfarthfa yn gartref i lawer o wahanol rywogaethau o anifeiliaid, rai ohonynt yn rhywogaethau sydd mewn perygl dybryd ac sydd wedi eu gwarchod bellach fel y. Mae'r llwybr yn gyfle gwych i ddysgu beth oedd arfer byw yn y parc Mae'r llwybr yn gyfle gwych i ddysgu beth oedd arfer byw yn y parc," dywedodd Gill

Hampson, Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor Bwrdeistref Sirol.

"Yn ogystal â rhoi cyfle i gyfranogwyr fwynhau'r amgylchedd prydferth, bydd gêm gardiau llwybr yr anifeiliaid hefyd yn cynnwys llawer o ffeithiau diddorol am yr anifeiliaid ar y rhestr - gall iâr ffesant redeg at gyflymder o 10 milltir yr awr, er enghraifft. Felly mae yna lawer i'w ddysgu!"

Mae'r parc hefyd yn croesawu geocasio yn ôl – helpa drysor ddigidol ryngweithiol lawn hwyl a fydd hefyd yn rhoi cyfle i deuluoedd archwilio llwybr yr anifeiliaid neu weddill y parc.

Yr enw a roddir ar y trysor sydd angen ei ddarganfod i gwblhau'r gêm yw "geocache". Gall y "caches" amrywio'n fawr mewn siâp a maint – o gynhwysydd modfedd o uchder i flwch mawr – a gallant fod yn guddiedig neu'n amlwg ar unwaith.

Er mwyn dod o hyd iddynt, mae angen i gyfranogwyr gofrestru ar-lein a rhoi'r cyfesurynnau i mewn i'w GPS/ffonau clyfar. Mae unedau GPS a mapiau llwybr yr anifeiliaid ar gael oddi wrth y dderbynfya yn Amgueddfa Cyfarthfa ac mae angen talu blaendal bach i'w defnyddio.

Ewch i [www.cyfarthfa.com](http://www.cyfarthfa.com) am ragor o wybodaeth.

## Parc Taf Bargoed yn dathlu 20 mlynedd

Eleni, nodwn 20fed pen blwydd trawsnewidiad Parc Taf Bargoed o fod yn safle pyllau glo wedi cau i fod yn hafan ar gyfer bywyd gwyllt.

Dyma gyn safle tri phwll glo – Deep Navigation, Trelewis a Thaf Merthyr – enillodd y parc 140 hectar statws Baner Werdd hefyd yn 2011, gwobr sy'n gydnabyddiaeth i barciau a gwagleoedd agored sy'n cael eu rheoli'n dda ac sy'n gosod meincnod ar gyfer rheoli gwagleoedd hamdden awyr agored ledled y DU ac o gwmpas y byd.

Yn seiliedig ar gofnodion o Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru, cafodd dros 100 o rywogaethau adar eu cofnodi oddi fewn i 3 km sgwâr o'r parc - 27% ohonynt yn rhywogaethau o flaenoriaeth ac wedi eu diogelu.

Mae'r rhain yn cynnwys adar fel y Gog, y Gornchwigen, y Gylfinir a'r Wibedog

frith, i enwi ond ychydig. Gan fod poblogaeth adar yn cael ei defnyddio fel dangosydd da o gyflwr bywyd gwyllt yn gyffredinol yng nghefn gwlad, dylid dathlu'r amrywiaeth o rywogaethau adar yn y parc ar ôl cyfnod byr o 20 mlynedd.

Mae'r parc hefyd yn gartref i dros 100 rhywogaeth o infertebrata, 49 rhywogaeth o wyfynod, dros 20 rhywogaeth o famaliaid a phili-palaod a mwy na 200 rhywogaeth o blanhigion.

"Fel un o nifer o wagleoedd agored Merthyr, mae Parc Taf Bargoed yn darparu amgylchedd hygyrch a diogel i deuluoedd a phlant ysgol i gysylltu ac archwilio rhyfeddodau natur," dywedodd Aelod Cabinet dros Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd y Cynghorydd Geraint Thomas.

## Disgyblion yn dysgu am hanes Trevithick



Nododd disgyblion o Ysgolion Cynradd Parc Cyfarthfa, Gwaunfarren, Rhyd y Grug a Heolgerig ben blwydd taith y locomotif stêm cyntaf drwy gymryd rhan mewn cystadleuaeth celf a stori.

Gwnaeth partneriaid yn cynnwys CBSMT, Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful a Chalon Fawr Merthyr Tudful drefnu cyfres o gyfleoedd addysgiadol i'r disgyblion gael dathlu Diwrnod Trevithick 2019.

Aethon nhw hefyd ar ymweliad i Dwnnel Trevithick, sef safle'r foment hanesyddol, ble y cawsant wefr yng nghwmni'r dehonglwr a'r storiwr lleol, Tony Thomas, â wnaeth ail-greu'r digwyddiad yn fywiog.

Tasg y gystadleuaeth oedd cynhyrchu darn o waith celf a oedd yn adrodd stori locomotif Trevithick, a hefyd dychmygu bod yno ar y diwrnod ac ysgrifennu am yr hyn a welwyd.

Bydd y rhai ddaeth i'r brig yn cael eu recordio gan yr actor a anwyd ym Merthyr, Steve Spiers, sydd wedi ymddangos mewn ffilmiau fel Pirates of the Caribbean: Dead Man's Chest ac fel Big Al yn y gyfres deledu Stella.

Gwahoddwyd yr enillydd, sef Ellie Hughes sy'n ddisgybl o Ysgol Gynradd Gwaunfarren a phedwar arall a ddaeth i'r brig i Oriel Gelf ac Amgueddfa Castell Cyfarthfa, ble y darllenodd Steve Spiers straeon y disgyblion.

## Cynllun Yn y Cyfamser yn dod â blas y Caribî i ganol y dref



Mae'r amrywiaeth o fwydydd sydd ar gael ym Merthyr Tudful wedi ehangu ymhellach gydag agoriad tŷ bwyta Caribiaidd cyntaf y dref, sef ychwanegiad diweddaraf y Cyngor Bwrdeistref Sirol i'r fenter arloesol 'Yn y Cyfamser'.

Mae Caribbean Cariad yn dod â blas Bae Montego i'r Stryd Fawr - diolch i Michael Hamilton o ganolbarth Lloegr, ond sydd â'i deulu'n hanu o ddinas enwocaf Jamaica. Gwiredwyd cenhadaeth Michael sef cyflwyno Merthyr i bleserau cyw iâr jerc gyda chymorth oddi wrth gynllun Yn y Cyfamser, sef ymagwedd bartneriaeth sy'n gwella golwg canol y dref drwy roi bywyd yn ôl i mewn i adeiladau gwag. Ymunodd swyddogion datblygu economaidd y Cyngor, Canolfan Menter Merthyr Tudful, Tydfil Training, Busnes Cymru a pherchnogion eiddo gyda'i gilydd i ddarparu cefnogaeth gan gynnwys paratoi cynlluniau busnes a dod o hyd i lety byr dymor heb rent.

Mae cyfanswm o 15 o fusnesau wedi agor ym Merthyr Tudful ers i'r cynllun ddechrau bedair blynedd yn ôl - Caribbean Cariad yw'r unfed ar bymtheg.

Llynedd, roedd Michael yn byw yn Aberdâr ac yn gweithio yn Greggs yn Nhrefforest a

choginio mewn tafarn leol yn rhan amser. Cafodd wahoddiad i gymryd rhan yng Nghŵl Fwyd Merthyr 2018, ac roedd ei arddangosiad coginio byw yn boblogaidd iawn, felly penderfynodd fynd amdani ac agor ei dŷ bwyta ei hun.

Ar ôl misoedd o gefnogaeth, mentora, cyrsiau hyfforddi a chynlluniau busnes, daeth adeilad addas i fod ar gael ac agorodd Caribbean Cariad ym mis Ebrill. Ymhlith y seigiau mae ackee a plantain, ffriters pysgod halen, cyri cig gafr a melysfwyd fel teisen gaws coconyt a leim. Dywedodd Michael: "Bu'n uchelgais ers yn hir i ddod â bwyd y Caribî i gymuned y Cymoedd, ac rwyf wrth fy modd o gael y cyfle hwn gyda chymorth prosiect gwych y Cyngor, Yn y Cyfamser."

Dywedodd Prif Swyddog y Cyngor dros Adfywio'r Gymuned, Alyn Owen: "Mae canol y dref yn parhau i dyfu diwylliant o siopau annibynnol 'niche' sy'n hybu ein heconomi bywiog ac amrywiol, ac mae cynllun Yn y Cyfamser wedi helpu amrywiaeth eang o fusnesau."

• Os hoffech gael peth cefnogaeth oddi wrth Yn y Cyfamser, cysylltwch â Chanolfan Menter Merthyr Tudful ar 01685 727509.

## TRAWSNEWID EGLWYS HANESYDDOL I FOD YN FFLATIAU UNIGRYW MEWN AILWAMPIAD GWERTH £1.35M

Mae un o eglwysi mwyaf hanesyddol Merthyr Tudful wedi ei hadfywio a'i defnyddio fel llety preswyl ar ôl bod yn adfail ers dros 20 mlynedd.

Cafodd Eglwys Sant Ioan, Dowlais, adeilad rhestredig Graddfa II, a man claddu cyn berchennog Gwaith Haearn Dowlais a'r AS, Syr Josiah John Guest, ei thrawsnewid i fod yn 20 fflat unigryw â chymorth o £500,000 oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Heddiw (ddydd Iau, 9 Mai 2019), gwnaeth Hannah Blythyn AC, Dirprwy Weinidog ar gyfer Tai a Llywodraeth Leol, agor prosiect preswyl cyntaf Merthyr Tudful yn swyddogol, yn sgil Rhaglen Adfywio a Thai Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru.

Defnyddiwyd arian Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, ynghyd â £850,000 oddi wrth ddatblygwyr lleol, Graft Projects, i adfer to'r adeilad a'r waliau allanol a chwblhau adnewyddiad llwyr o'r tu fewn.

Wedi ei lleoli ar gornel Stryd yr Undeb Uchaf a Rhes yr Eglwys oddi fewn i Ardal Gadwraeth Dowlais, cafodd Eglwys Ioan Feddydiwr ei hadeiladu ym 1827 a'i chau ym 1997.

Mae llawer o'i nodweddion gwreiddiol, fel ffenestri lliw, distiau pren a theils llawr - a hyd yn oed y pulpud - wedi eu cadw, a bydd aelodau o'r cyhoedd yn parhau i allu cael mynediad i'r adeilad wrth y ddwy brif fynediad i weld y gofeb farmor i Syr Josiah John Guest a dysgu am hanes



yr eglwys.

Ymhlith y nodweddion eraill a gadwyd mae 'Ffenest y Glöwr', ffenest addurnedig, a gafodd ei hariannu gan deulu Edward Pritchard Martin, Rheolwr Cyffredinol Cwmni Haearn Dowlais. Mae teulu Martin yn gyndeidiau i'r canwr Americanaidd Donny Osmond, a gellir gweld placiau efydd a chofebion i'r teulu o hyd yn yr adeilad.

Disgrifiodd Hannah Blythyn y prosiect hwn fel enghraifft ardderchog o'r buddion mae rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn ei roi i gymunedau. "Mae'r datblygiad yn sicrhau dyfodol tirnod lleol, yn darparu tai sydd yn fawr ei hangen yn yr ardal a chyflenwi buddion cymunedol gan gynnwys creu swyddi newydd a datblygu cadwyn gyflenwi leol o ran gwaith ar yr adeilad," ychwanegodd. Dywedodd Cyfarwyddwraig Graft

Projects, Emma Thomas: "Mae'r fenter hon wedi rhoi buddhad mawr i ni a'n cyffroi ni fel cwmni. Rydym wedi mwynhau gweithio gyda thîm adfywio'r Cyngor Bwrdeistref Sirol a Llywodraeth Cymru yn fawr iawn, a gwnaethant ill dau roi dipyn o gefnogaeth i ni a gwerthfawrogwyd hynny'n fawr."

"Ein nod oedd adfywio'r adeilad hwn, a oedd yn dipyn o her – ond roedd hanes y lle yn ysbrydoliaeth," ychwanegodd. "Bu'r diddordeb lleol yn anhygoel hefyd, gyda llawer o breswylwyr a chyn-addolwyr yn dod i ymweld yn ystod y gwaith adeiladu."

"Ein nod arall oedd darparu llety byw ardderchog, sef rhywbeth yr ydym yn teimlo ein bod wedi ei gyflawni. Rydym yn meddwl y bydd amrywiaeth y dylunio yn apelio at bob mathau o unigolion a theuluoedd."



## Neges gan Arweinydd CBS Merthyr Tudful – Cyflawni'r gorau ar gyfer Pobl Merthyr Tudful

Efallai i chi weld y sylw diweddar yn y wasg ynghylch y problemau y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ei wynebu ar hyn o bryd.

Mae pob Cyngor, ledled y wlad yn teimlo'r straen yn sgil toriadau parhaol i'r gyllideb a hynny'n fwy nag erioed.

Mae cyllidebau'r Cyngor hwn eisoes mor gyfyngedig ac mae'r sefydliad yn ddiwastraff. Mae'n mynd yn fwy ac yn fwy anodd i ni gadw'n pennau uwch y dŵr.

Er mwyn bod yn gynaliadwy, mae'n rhaid i ni sicrhau fod gennym gapasiti ariannol cadarn, llywodraethu cydnerth ac arweinyddiaeth gref ar draws pob plaid wleidyddol.

Mewn cyfarfod o'r Cyngor, Ddydd Mercher 19 Mehefin 2019, tynnais sylw at bryderon a godwyd cyn hynny gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn ymwneud â chynaliadwyedd y Cyngor a'r heriau cyllidebol arwyddocaol.

Nid oes gan y Cyngor hwn opsiwn arall ond gweithredu a gwnaethpwyd cais am gymorth gan Lywodraeth Cymru. Fel Awdurdod, ein nod yw darparu'r gwasanaeth gorau i'n preswylwyr a sicrhau fod ein hawdurdod yn ariannol hyfyw ac yn gynaliadwy.

O dan adran 28 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, gwnaethpwyd cais i Lywodraeth Cymru ein cynorthwyo mewn meysydd penodol fel:

- Arbenigedd i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ariannol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol,
- Adolygu'r broses er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud

y gorau o bob adnodd sydd ar gael,

- Adolygu effaith achosion cymhleth, costus a heriol ar awdurdod sydd mor fychan. Yr her i'r Cyngor hwn yw'r angen i ddarparu newid drwy orfod gwneud penderfyniadau hynod anodd ar y cyd.

Mae pecyn cymorth yn awr wedi cael ei gynnig gan Lywodraeth Cymru a fydd yn gymorth i ni fynd i'r afael â'r heriau. Rwyf wedi cwrdd â Julie James, y gweinidog Tai a Llywodraeth Leol er mwyn trafod y pecyn cymorth hwn mewn rhagor o fanylder.

Roeddyngyfarfod cadarnhaol a chytunwyd y byddai rhagor o waith yn cael ei wneud er mwyn cadarnhau manylion y cymorth, gan gynnwys cytuno, ar y cyd ar amcanion a fframiau amser. Gallai'r cymorth gynnwys arbenigedd ac arweiniad gan gyn uwch swyddogion llywodraeth leol a gwleidyddion.

Mae fy Nhîm Rheoli Corfforaethol wedi rhoi cynlluniau yn eu lle yn barod i fynd i'r afael â'r heriau hyn a bydd y cymorth pellach hwn gan Lywodraeth Cymru yn gymorth i ni wneud y gorau o bob adnodd sydd ar gael a'n gwneud yn Gyngor a fydd yn fwy hyfyw o hyn ymlaen.

Fel Arweinydd y Cyngor hwn, ni allaf bwysleisio ddigon, er mwyn darparu'r cynlluniau hyn, y bydd rhaid i bob gwleidydd a swyddog gydweithio.

Rwy'n grediniol y gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gwrdd â'r heriau sydd o'n blaenau a gwasanaethu pobl Merthyr Tudful yn effeithlon ac effeithiol.



Vale, Valleys and Cardiff Adoption

Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd



### Achieving more together

Thinking about starting or extending your family?

Find out more about adopting with Vale, Valleys and Cardiff

Meddwl am ddechrau neu ychwanegu at eich teulu?

Dysgwch fwy am fabwysiadu gyda'r Fro, Y Cymoedd a Chaerdydd

contact@adopt4vvc.org

0800 023 4064

www.adopt4vvc.org



## Mae plant Merthyr angen Gofalwyr Maeth o Ferthyr

☎ 01443 425007

🌐 [fostercwmtaf.co.uk](http://fostercwmtaf.co.uk)





# MAE CYNGOR MERTHYR TUDFUL YN CYFLAWNI ACHREDIADAU DIOGELWCH SEIBER



## CYBER ESSENTIALS

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn falch o fod yr Awdurdod Lleol cyntaf yng Nghymru i'w ardystio â 'Cyber Essentials Plus' a 'Safon Llywodraethiant IASME (Dyfarniad Aur)' drwy brosiect a ariannwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Mae'r ddau ardystiad yn helpu

i drefnu diogelu yn erbyn y bygythiadau seibr mwyaf cyffredin ac yn arddangos ymrwymiad at ddiogelwch seibr a'u bod yn cymryd camau da i ddiogelu gwybodaeth eu cwsmeriaid yn y modd cywir. Yn 2018 gwnaeth concordat rhwng Gweinidogion Cymru a CLILC a oedd yn gosod allan mesurau

cytunedig i gryfhau gwytnwch a diogelwch Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn erbyn bygythiadau seibr, eu gosod mewn lle, a gwnaeth Llywodraeth Cymru sicrhau grant drwy CLILC ar gyfer pob awdurdod lleol unigol i gyflawni ardystiad Cyber Essentials Plus.

Dyweddodd y Dirprwy Brif

Weithredwr, Ellis Cooper, "mae gwella gwytnwch seibr a diogelwch yn flaenoriaeth gorfforaethol hanfodol i ni er mwyn diogelu data ein preswylwyr. Mae cyflawni'r ardystiad yn ein galluogi ni i arddangos i Aelodau ac i'r cyhoedd lefel y mesurau diogelwch seibr rydym wedi eu gosod mewn lle, er mwyn cadw ein sefydliad yn ddiogel".

Dyweddodd y Swyddog Diogelu Gwybodaeth, Ryan James, "mae cyflawni'r ardystiad yn dod â'i fanteision i'r sefydliad ac yn dawelwch meddwl i

breswylwyr a phartneriaid busnes fod diogelwch seibr yn cael ei gymryd o ddifrif a'n bod ni'n gweithio i sicrhau ein TG yn erbyn ymosodiad seibr. Mae'r bygythiad seibr yn risg Haen Un DU sydd â chanlyniadau mawr i sefydliadau a'r bobl maen nhw'n eu gwasanaethu, drwy fabwysiadu mesurau diogelwch seibr rydym yn rhoi rheolau mewn lle i atal neu leihau effaith ymosodiad".



**Visit Us Today**

Your dream bathroom is closer than you think.

With leading bathroom brands to suit every project, style and budget, you can get what is right for you.

We also offer a FREE 3D design and planning service, so you can see your new bathroom before it's fitted.

**10% off with this flyer\***

\*Merthyr Tydfil only


**THE BATHROOM SHOWROOM**

Find us at:  
**The Bathroom Showroom within City Plumbing**



Unit 6 & 6B, Pant Ind Est, Dowlais, Merthyr Tydfil, CF48 2SR  
Tel: 01685 382383  
Monday-Friday: 7:30am - 5pm  
Saturday: 8am - 12pm  
[the-bathroom-showroom.co.uk](http://the-bathroom-showroom.co.uk)





**Ysbrydoli i Weithio**

Technegau cyfnewid Chwilio am swydd  
Iechyd a Llesiant Paratoi CV

**Wyt ti rhwng 16-24 oed?**

Oes angen cefnogaeth arnat i gael addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant?

Gallwn gynnig cefnogaeth gyda bywyd o ddydd i ddydd neu'r cyfle i ennill cymwysterau a phrofiad gwaith.

Wyt ti am wybod rhagor am yr hyn all Ysbrydoli i Weithio ei gynnig?

**Cysyllta: 01685 727457**



## Mae gwrthdroad traffig Stryd Fawr Pontmorlais wedi ei gwblhau bellach

Mae'n bosibl eich bod yn ymwybodol fod gwrthdroad llif traffig Stryd Fawr Pontmorlais wedi dod i rym ddiwedd Mai

2019. Mae'r gwrthdroad yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn 2018 a oedd yn cynnig tri opsiwn a gafodd eu dynodi o fod â'r gallu i wella ansawdd

yr aer ar Heol Twynyrodyn heb beri effeithiau croes sylweddol rywle arall. O'r ymatebion a dderbyniwyd roedd 94% yn ffafrio'r opsiwn sy'n cynnwys

gwrthdroi'r traffig un ffordd ar Stryd Fawr Pontmorlais a Heol yr Eglwys. Hoffem ddiolch i breswylwyr, perchnogion busnes a

defnyddwyr yr ardal am eu hamynedd a'u dealltwriaeth yn ystod y gwaith.